Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Bagloriaeth Cymru – Blwyddyn 10
# Sut y byddech chi yn cyflwyno Dadl Fer yn y Cynulliad?



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Uned 03 – Beth yw eich barn chi?

## Sut y byddech chi yn cyflwyno Dadl Fer yn y Cynulliad?

### Nod:

Dysgu am natur Dadl Fer a gynhelir mewn Cyfarfod Llawn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Amcanion:

- Llunio Dadl Fer.
- Dysgu am reolau a strwythur Dadl Fer.
- Gwneud gwaith ymchwil ar y pynciau a ddewiswyd.
- Llunio dadl o fewn amser penodol.
- Gwella sgiliau cyflwyno.
- Datblygu sgiliau o ran gwneud penderfyniadau.
- Datblygu dulliau dadlau, sef sgiliau holi /ateb (gweler Uned 01 – Beth yw gwaith Aelod Cynulliad?).
- Dod o hyd i **wybodaeth am rôl y Llywydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**.
- Datblygu sgiliau gwrando, cyfathrebu a sgiliau dwyn perswâd llafar.

### Adnoddau:

Gwefan Cynulliad
**www.cynulliadcymru.org/**
Cylchgronau
Papurau newydd
Llyfrgell yr ysgol
Llyfrgell leol
BBC i Player
Gwefan y BBC
Gwefan Sianel 4
Gwefan ITV Cymru
Gwefan S4C
Gwefan BBC Radio 4
Gwefan Senedd TV
**www.senedd.tv**
Gwefan **'Democratiaeth Fyw'**

### Gweithgaredd:

- Bydd y dosbarth cyfan yn penderfynu ar reolau ymddygiad penodol ar gyfer y ddadl e.e. dim iaith anweddus, dim sylwadau cas am gydweithwyr sy'n llefaru.
- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o bump.
- Bydd gan bob grwp gadeirydd (Y Llywydd).
- Bydd gan bob grŵp ddau siaradwr o blaid y pwnc o dan sylw.

–Bydd gan bob grŵp ddau siaradwr yn erbyn y pwnc o dan sylw.
–Dylai pob aelod o'r grŵp wneud gwaith ymchwil ar y pwnc o dan sylw.
–Y terfyn amser ar gyfer cynnal Dadl Fer yw 10 munud i bob grŵp.
–Wrth i bob grŵp drafod, bydd y myfyrwyr yn y gynulleidfa'n penderfynu pwy sydd wedi ennill y ddadl yn ôl cryfder cynnwys eu dadl a'u sgiliau cyflwyno.

## Nodiadau a chanllawiau i athrawon.

### 01 – Dyfyniad o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Dadleuon byr.*

*12.72*
*Rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod neu Aelodau, heblaw aelod o'r llywodraeth, a gaiff gynnig pwnc ar gyfer Dadl Fer.*

*12.73*
*Rhaid i'r Aelod sydd wedi llwyddo yn y balot hysbysu'r Llywydd am y pwnc o leiaf bum diwrnod gwaith cyn ei fod i gael ei drafod.*

2.74 *Yn y ddadl:*
*(i) caiff yr Aelod a lwyddodd yn y balot siarad;*

*(ii) caiff aelod o'r llywodraeth (neu, os yw'r mater o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn, aelod o'r Comisiwn) ymateb; a*

*(iii) ni chaiff yr un Aelod arall siarad oni bai bod ganddo ganiatâd yr Aelod a lwyddodd yn y balot neu oni chaniateir ymyrryd gan yr Aelod sy'n ymateb.*

### 02 – Balot yr Aelodau ar gyfer Dadl Fer.

Rhaid i'r Llywydd gynnal balot i bennu enw'r Aelod neu'r Aelodau, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth, a gaiff gynnig pwnc ar gyfer cynnal Dadl Fer. Cynhelir balot yr Aelodau bob hanner tymor.

### 03 – Rheolau ynghylch cynnal Dadl Fer yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

–Ni fydd y Ddadl Fer yn parhau'n hwy na 30 munud.
–15 munud ar gyfer yr Aelod a enillodd y balot.
–15 munud ar gyfer Gweinidog Llywodraeth Cymru.
–Yr Aelod a enillodd y balot fydd yn siarad gyntaf, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

- Ar ddechrau Dadl Fer, bydd yr Aelod a enillodd y balot yn nodi a roddwyd caniatâd i unrhyw Aelodau eraill wneud cyfraniad byr ar ddiwedd cyfnod o 15 munud yr Aelod a enillodd y balot (os bydd amser yn caniatáu hynny).
- Os nad oes dim amser ar ôl yn ystod hanner cyntaf y ddadl, bydd modd i'r Aelodau a enwebwyd geisio ymyrryd yn ystod ymateb y Gweinidog yn ail hanner y ddadl. Bydd y Gweinidog yn siarad am 15 munud.

### 04 – Gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.

Rhai awgrymiadau o ran pynciau i'w trafod mewn grwpiau:

- Dylid gostwng yr oed pleidleisio i 16.
- Dylid gwahardd taro plant (ei wneud yn anghyfreithlon yng Nghymru).
- Dylid gwahardd ysmygu mewn ceir (ei wneud yn anghyfreithlon yng Nghymru).
- Dylid gosod cyrffyw nos ar bawb sydd o dan 16 oed.
- Dylai rhoi organau ar gyfer trawsblaniadau fod yn orfodol.
- Dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn rhad ac am ddim i bawb o dan 16 oed (Yn ystod tymor yr ysgol?).
- Unrhyw fater neu bwnc dadleuol lleol.

### 05 – Asesu trafodaeth y grwpiau.

- Dylid nodi sgôr o rhwng 1 a 5 ar gyfer pob categori, neu nodi cyfres o wynebau sy'n amrywio o wynebau trist i rai hapus iawn.

    - Arddull y cyflwyniad.
    - Cynnwys.
    - Ansawdd y gwaith ymchwil.
    - Cryfder y ddadl.
    - Rôl y cadeirydd.

- Tybed a oes potensial ar gyfer ffurfio Tîm Dadlau i'r Ysgol yn y dosbarth?
- A oes unrhyw gystadlaethau dadlau yn cael eu cynnal yn lleol /cenedlaethol?